


System Adrodd Genedlaethol y Gweithlu Cymru (WNWRS)

Echdynnu Data Mis Mawrth

DIOLCH yn fawr iawn i'r 98% o bractisau ledled Cymru a fewngofnododd i'r WNWRS cyn diwedd y chwarter a dilysu eu data. Drwy waith caled rheolwyr practisiau, nid ydym bellach yn derbyn yr un rhybudd critigol yn yr WNWRS, sy'n golygu bod gan yr holl staff sy'n rhan o'r system gofnod staff dilysu. Mae rhai practisiau yn dal i arddangos rhybuddion nad ydynt yn gritigol, felly ewch ati i sicrhau nad oes gan eich practis unrhyw rybuddion sydd angen eich sylw a nodwch yr wybodaeth sydd ei hangen cyn gynted â phosibl er mwyn cael gwared ar y rhybuddion.



Ffocws ar: Swyddi Gwag

Mae NHS Jobs wedi'i ddiweddaru ar gyfer Hysbysebu swyddi Gofal Sylfaenol. Mae GP Wales a Gwasanaethau Recriwtio PCGC yma i'ch cefnogi drwy'r swyddogaeth well a symlach er mwyn sicrhau fod cyn lleied â phosibl o darfu arnoch wrth ichi greu swydd wag newydd.

Gall practisiau meddygon teulu greu hysbysebion swyddi ar GP Wales ac mae rheolwyr practisiau yn gallu cael mynediad i NHS Jobs i lawrlwytho manylion ymgeiswyr a chreu rhestr fer ohonynt all-lein. Bu rhai diweddariadau i'r broses o lunio rhestr fer, ac mae'n bwysig eich bod yn cyrchu'r canllawiau a ddarperir gan Wasanaethau Recriwtio PCGC i ddeall y newidiadau hynny. Anfonwyd y rhain mewn e-bost gan PCGC ar 1/3/22 i bob Rheolwr Practis.

Bydd cyfrifon Rheolwyr Practis newydd yn cael eu creu. Byddwch yn cael hysbysiad o hyn a bydd gofyn i chi sefydlu cyfrinair i gael mynediad iddynt. Bydd y rhain yn disodli unrhyw gyfrifon a gedwir ar wefan swyddi presennol y GIG.

Mae tudalennau gwe [Hysbysebion Gofal Sylfaenol](#) yn cynnwys llawer o ddogfennau defnyddiol, canllawiau ac adran Cwestiynau Cyffredin a fydd yn eich cefnogi drwy'r broses recriwtio.

Hoffech chi gyflogi Cydymaith Meddygol sydd newydd gymhwyso?

Byddai'r rhai a ymunodd â'r Digwyddiad Arddangos Gofal Sylfaenol Cydymaith Meddygol rhithwir ar 1 Mawrth wedi clywed am y cyfraniad a wnaed gan Gymdeithion Meddygol fel rhan o Dîm Amlddisgyblaethol, cwmpas eu hymarfer a'r effaith y mae'r rôl newydd hon yn ei chael ar ddarparu gofal i gleifion mewn lleoliadau Gofal Sylfaenol. Mae'r ffordd y caiff Cymdeithion Meddygol sydd newydd gymhwyso yng Nghymru eu recriwtio wedi newid yn ddiweddar. Maent bellach yn cael eu penodi drwy'r Cynllun Symleiddio i Fyfyrrwyr, a drafodwyd hefyd yn ystod y digwyddiad.

Os oes gennych ddiddordeb mewn penodi Cydymaith Meddygol sydd newydd gymhwyso i'ch Practis i ddechrau yn ei swydd o fis Tachwedd 2022, cysylltwch â cath.mulligan@wales.nhs.uk ac nwssp.pastudentstreaming.enquires@wales.nhs.uk am ragor o fanylion. Mae'r Cynllun Symleiddio i Fyfyrrwyr yn agor ddydd Mawrth 19 Ebrill felly cysylltwch â ni cyn gynted â phosibl.

Hyfforddiant Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol (GMPI)

Bydd y Tîm GMPI yng Ngwasanaethau Cyfreithiol a Risg PCGC yn cynnig hyfforddiant o bell i Staff Practisiau Meddygon Teulu yng Nghymru yn ystod y misoedd nesaf. *Diweddariad ar y Cynllun ar gyfer Indemniad Ymarfer Meddygol Cyffredinol a Dysgu o Ddigwyddiadau ym maes Ymarfer Meddygol Cyffredinol ac Ymdrin â Phryderon Cleifion* fydd y pynciau cyntaf a drafodir. Yn y cyfamser, os ydych yn cynllunio digwyddiad hyfforddi ac os hoffech i'r Tîm GMPI ddarparu sesiwn ar y pynciau hyn, cysylltwch â GMPI@wales.nhs.uk

Manteision gweithio ym maes Ymarfer Cyffredinol

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi manylion am rai o fanteision gweithio mewn ymarfer cyffredinol, a allai fod yn ddefnyddiol i chi a'ch timau clinigol.

Gweler y ddolen isod a'i rhannu gyda'r holl staff perthnasol

[Manteision gweithio ym maes ymarfer cyffredinol | LLYW.CYMRU](#)

